# Trwydded Addysg

Canllawiau i Ddefnyddwyr

Copy, Right

# Pam mae gennym Drwydded CLA?

Mae llyfrau, cyfnodolion, cylchgronau ac adnoddau digidol yn cael eu diogelu gan hawlfraint.

Mae'r hawlfraint hon yn golygu y bydd angen i chi, yn ôl pob tebyg, ofyn am ganiatâd cyn ailddefnyddio deunydd cyhoeddedig.

Weithiau mae eithriadau hawlfraint yn golygu nad oes angen i chi ofyn am ganiatâd mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yr eithriadau yn diwallu eich holl anghenion copïo.

Mae Trwydded Addysg gynhwysfawr CLA yn rhoi'r hawl i athrawon mewn sefydliadau trwyddedig gopïo ac ailddefnyddio deunydd cyhoeddedig heb orfod poeni am dreulio amser nac arian yn sicrhau caniatâd gan ddeiliaid hawliau bob tro.

# Tawelwch meddwl

Ar yr amod bod staff yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Drwydded Addysg, bydd CLA yn indemnio (amddiffyn rhag atebolrwydd cyfreithiol) eich sefydliad ar gyfer hawliadau am dor-hawlfraint, lle mae'r defnydd yn dod o dan y drwydded.

# Trwydded i wneud beth?

Llungopïo

Argraffu


Ail-deipio

Sganio

Torri a Gludo

Tynnu llun

# Sut mae trwyddedu yn cefnogi creadigrwydd



Mae cyhoeddwyr, awduron ac artistiaid yn creu ac yn cyhoeddi cynnwys, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn Nhrwydded Addysg CLA

Mae sefydliadau yn prynu'r drwydded i gael caniatâd i gopïo, ac i amddiffyn rhag risg tor-hawlfraint

Mae Ymarferion Casglu Data, a gynhelir gan CLA, yn samplu copïo mewn sefydliadau. Defnyddir y data a gesglir i gyfrifo taliadau breindal

Mae CLA yn dychwelyd y data hwn a ffioedd trwyddedau (llai ein costau gweithredu) i sefydliadau sy'n cynrychioli cyhoeddwyr, awduron ac artistiaid


Telir taliadau breindal yn flynyddol i awduron, cyhoeddwyr ac artistiaid, a all wedyn fynd ymlaen i greu mwy o gynnwys

# Beth allaf ei gopïo?

**Mae'n rhaid i'ch ysgol/coleg fod yn berchen ar, neu'n tanysgrifio i'r deunydd sy'n cael ei gopïo neu ei ailddefnyddio, a gall hyn gynnwys:**

**Llyfrau**
**Cylchgronau**
**Cyfnodolion**
**Cynnwys gwefannau penodol**

Y ffordd gyflymaf o weld a yw rhywbeth rydych am ei ailddefnyddio yn dod o dan y drwydded yw defnyddio'r adnodd Gwirio Caniatâd ar wefan CLA. Chwiliwch am y faner hon :




## Arweiniad yn unig yw'r ddogfen hon

Sylwer nad yw'n disodli telerau ac amodau'r Drwydded, ac os bydd gwrthdaro rhwng y ddau, y Drwydded sydd gryfaf.

# Eithriadau

## Ni allwch gopïo rhai mathau o gynnwys ar eich trwydded

### Llyfrau gwaith, cardiau gwaith na thaflenni aseiniadau

Mae'r rhain yn gyhoeddiadau y bwriedir i fyfyrwyr ysgrifennu arnynt a'u defnyddio unwaith yn unig

### 'Ni chaniateir copïo o dan Drwydded CLA'

Unrhyw gyhoeddiad sy'n cynnwys hysbysiad sy'n datgan yn benodol na ellir ei gopïo o dan drwydded CLA. Mae hyn fel arfer i'w weld ym mlaen y cyhoeddiad ynghyd ag enw'r cyhoeddwr a'r hysbysiad hawlfraint cyffredinol

### Cerddoriaeth Brintiedig (gan gynnwys y geiriau)

Cyhoeddiadau sy'n ddim ond cerddoriaeth brintiedig yw'r rhain. Ar gyfer ysgolion, mae Trwydded Cerddoriaeth Brintiedig Ysgolion (SPML) ar gael i'w phrynu. Ar gyfer colegau, nid oes trwydded gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ac felly cynghorir sefydliadau i gysylltu â'r Gymdeithas Cyhoeddwyr Cerddoriaeth am arweiniad


### Papurau Newydd (fersiynau print a gwefannau)

Mae NLA Media Access wedi penodi CLA fel ei asiant ar gyfer holl drwyddedu addysg y DU. Gellir dysgu mwy am gopïo o bapurau newydd ar wefan CLA

### Mapiau a siartiau

Cyhoeddiadau sy'n ddim ond mapiau a/neu siartiau yw'r rhain. Mae siartiau yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at e.e. siartiau môr, tywydd a hydrograffig. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y defnydd trwyddedig o gynhyrchion Arolwg Ordnans ar wefan yr Arolwg Ordnans

# Faint allaf ei gopïo?




**Gallwch gopïo pa un bynnag yw'r mwyaf o'r tri dewis uchod**

Felly os bydd dwy bennod yn 5% o'r llyfr, gallwch gopïo'r ddwy o dan y drwydded.

Mae'r symiau hyn yn berthnasol i ddeunydd digidol hefyd, ond gwyddom nad yw pethau fel gwefannau wedi'u trefnu yn yr un modd â llyfr print. Rydym yn eich cynghori i arfer synnwyr cyffredin wrth gopïo rhannau yn rhesymol, yn unol â'r canllawiau uchod.

# Trwyddedau Sylfaenol

Os yw eich ysgol neu'ch coleg yn prynu neu'n tanysgrifio i gynnyrch digidol e.e. platfform e-lyfrau, bydd hynny fel arfer yn cynnwys cytundeb trwyddedu – a'r enw ar hwn yw eich cytundeb trwydded sylfaenol. Rhoddir trwyddedau sylfaenol gan gyhoeddwyr a darparwyr eraill, a bwriedir i'r Drwydded Addysg CLA ategu'r rhain.

Mae'n bosibl y bydd trwydded sylfaenol yn caniatáu gwneud copïau. Sicrhewch eich bod yn gwirio cyn copïo oherwydd gall hyn amrywio gan ddibynnu ar y cyhoeddwr.

Ond, efallai y byddwch am gopïo o dan y drwydded CLA ac nid o dan y drwydded sylfaenol, o bosibl gan fod telerau'r drwydded CLA, sy'n caniatáu copïo 5%, yn fwy hael.

Ar ddiwedd y dydd, chi sy'n penderfynu o dan ba delerau rydych yn copïo, telerau'r drwydded sylfaenol neu drwydded CLA. Ond cofiwch fod yn rhaid i'r deunydd fod wedi cael ei gynnwys yn ein trwydded. Defnyddiwch yr adnodd Gwirio Caniatâd er mwyn cadarnhau hyn.

# I bwy allaf roi copïau?

Gall staff a myfyrwyr yn eich ysgol neu'ch coleg dderbyn copïau a wneir o dan y drwydded.

Y peth allweddol i'w gofio yw bod yn rhaid i'r copi fod yn ddiogel i'ch sefydliad. Ni ddylid ei rannu y tu allan i'r ysgol, na'i roi ar wefan sy'n agored i'r cyhoedd.

# Sawl copi allaf ei wneud?


Gallwch wneud cynifer o gopïau ag sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod gan bob myfyriwr ac unrhyw staff sy'n cefnogi'r dosbarth fynediad at gopi.

Mae'n iawn rhoi copi ar yr amgylchedd dysgu rhithwir neu'r fewnrwyd, ond sicrhewch ei fod yn ddiogel i'ch ysgol neu'ch coleg.

# Pa mor hir allaf gadw copïau?

Gallwch gadw copïau cyhyd ag y bydd eu hangen arnoch, ac ar ôl hynny dylid eu dinistrio neu eu dileu. Cadwch olwg ar hen gopïau a ddefnyddiwch fel nad yw unrhyw gopïau newydd o'r un deunydd yn mynd â chi dros y 5%.

Os oes gennych sgan na fyddwch angen ei roi i fyfyrwyr eleni, ond efallai y byddwch yn ei ddefnyddio eto, sicrhewch eich bod yn ei archifo'n ddiogel nes y bydd arnoch ei angen. Nid yw'r drwydded yn caniatáu i chi gadw sganiau mewn 'llyfrgell' sy'n agored i bob myfyriwr bori ynddi, felly cofiwch eu storio a'u ffeilio'n briodol.



## A oes angen i mi adrodd am yr hyn rwy'n ei gopïo?

Mae'n arfer da cofnodi'r manylion llyfryddiaethol – awdur/artist a theitl – ar y copi, ac yn ddelfrydol, y cyhoeddwr a'r Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol (ISBN)/ISSN neu URL hefyd.

Bydd hyn yn eich helpu i gadw golwg ar eich copïo, a dangos achrediad a chyfeirio da i'ch myfyrwyr.

Y tu hwnt i hyn, nid oes angen i chi hysbysu CLA o'r hyn a gopïwch, oni bai y cewch eich dewis ar gyfer Ymarfer Casglu Data. Mae'r ymarferion yn ein helpu i gyfrifo sut i ddosbarthu ein ffioedd trwyddedau i awduron, artistiaid a chyhoeddwyr y mae eu gwaith wedi'i gopïo.

Os dewisir eich sefydliad ar gyfer ymarfer, cewch eich hysbysu mewn da bryd, a bydd esboniad o'r broses. Diolchwn i chi am eich holl ymdrechion ymlaen llaw - mae'r data gwerthfawr hwnnw'n ein helpu i dalu crewyr am ailddefnyddio eu gwaith.

# Amhariadau ar y golwg

Os oes gan fyfyriwr neu aelod o staff amhariad ar y golwg neu anabledd arall sy'n golygu nad yw'n gallu darllen neu gael mynediad at gopïau a wnaed o dan y drwydded, gallwch wneud a rhoi copi o ddarn o unrhyw ddeunydd, neu'r deunydd cyfan a ganiateir gan y drwydded, mewn fformat amgen.

Mae fformatau amgen yn cynnwys digidol neu glywedol, print bras neu brint bach.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid bod eich sefydliad wedi prynu copi gwreiddiol o'r gwaith dan sylw.

Mae copïo ar gyfer myfyrwyr sydd ag amhariad ar y golwg hefyd yn eithriad hawlfraint, felly gallwch benderfynu a ydych am gopïo o dan y drwydded neu'r eithriad.

**The Copyright Licensing Agency Ltd**

Ffôn 020 7400 3100
E-bost cla@cla.co.uk
www.cla.co.uk

CLA Scotland
Ffôn 020 4512 0100
E-bost licence@cla.co.uk

Cofrestrwyd yn Lloegr
Rhif Cofrestru 1690026